**LC657**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) 2003**

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu'r gofynion mewn perthynas â glanhau a diheintio unrhyw "gyfrwng cludo" a ddefnyddir ar gyfer symud anifeiliaid. Mae'n disodli gorchymyn 2001 o'r un teitl.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio yn erthygl 1(3), sydd wedi cael ei gydnabod ar ran y Gweinidog.

Mae is-baragraffau (a) a (b) yn darparu ar gyfer estyn dau ddiffiniad ar y cyd. Serch hynny, mae'r darpariaethau galluogi yn adrannau 87 ac 88 yn darparu ar gyfer estyn pob diffiniad ar wahân. Yr oedd y ffurf a ddefnyddiwyd yn y gorchymyn blaenorol yn ei gwneud hi'n gwbl glir bod pob diffiniad wedi ei estyn ar wahân, a'r drefn fwyaf boddhaol fyddai defnyddio'r ffurf hon yn y gorchymyn presennol. Un ateb arall, ond llai boddhaol fyddai cynnwys “yn eu trefn” ar ôl “cynnwys” ym mhob un o is-baragraffau (a) a (b).

**Sylwadau**

**Erthyglau 3(1) a 4(1)**

Er na effeithiwyd ar yr ystyr ni ystyriwyd mai "rhaid" yw'r gair mwyaf priodol i'w ddefnyddio. Efallai mai canlyniad ymgais gamarweiniol i sicrhau cysondeb â'r testun Cymraeg oedd hyn. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cynnwys cyfarwyddyd gorfodol ond yn hytrach maent yn nodi sut y dylid dehongli'r term o dan sylw. O ganlyniad efallai y byddai "a dylai cyfeiriadau" yn fwy priodol na "rhaid".

741

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

11 Mawrth 2003